**CYFARFOD COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU A GYNHALIWYD AM 10:00 AM AR 29 MAI 2025 YN CP2 a thrwy Teams**

**Yn bresennol:** Bev Smith (Cadeirydd); Dianne Bevan, Frank Cuthbert, Ginger Wiegand, Bethan Williams Price, Karen Jones, Frances Duffy, Andrew Blackmore (Cadeirydd, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwiio)

**Swyddogion CDFfC a oedd yn bresennol:** Shereen Williams (Prif Weithredwr); Tom Jenkins (Pennaeth Arolygon); Carys Vaughan (Swyddog Arolygon); Mark Pascoe (Pennaeth Iechyd Democrataidd); Caitlin Lowry (Swyddog Polisi Iechyd Democrataidd) Ellie Chapman (Swyddog Cymorth Tîm)

**Amser Dechrau:** 10:20
**Amser Gorffen:** 12:15

**Ymddiheuriadau:** Michael Imperato; Roger Ashton-Winter (Uwch Reolwr Polisi Iechyd Democrataidd, URPID)

## 1. Datganiadau Buddiannau

1.1. **Nodwyd** bod Frank wedi dod yn aelod o banel a sefydlwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i adolygu'r lwfansau maen nhw'n eu talu i gynghorwyr mewn swyddi arweiniol o fewn CLILC.

## 2. Briff gan y Cadeirydd

2.1. Soniodd y Cadeirydd wrth y Comisiwn am y Diwrnod Strategaeth a gynhaliwyd fis diwethaf, gan ddiolch i bawb am eu cyfraniadau.

2.2. Dywedodd y Cadeirydd fod tair elfen allweddol i baratoi ar gyfer yr etholiadau – y platfform gwybodaeth etholiadol, cynnal arolygon etholiadol a hefyd cwblhau'r adroddiad penderfyniadau ar gydnabyddiaeth ariannol.

2.3. Dywedodd y Cadeirydd y byddai agenda'r Bwrdd yn newid, gan sôn am sicrwydd ac amlder adroddiadau. Cynhelir trafodaeth ehangach ar ffurf Iechyd Democrataidd yn y dyfodol.

2.4. Dywedodd y Prif Weithredwr nad yw'r Llythyr Cylch Gwaith wedi cael ei gyhoeddi o hyd, heblaw am y pwyntiau drafft a rannwyd gan yr Is-adran Noddi ar gyfer y Diwrnod Strategaeth.

2.5. Dywedodd y Cadeirydd y byddai sesiwn hyfforddi'n cael ei chyflwyno gan Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA) i gael dealltwriaeth ehangach o Etholiad y Senedd sydd i ddod y flwyddyn nesaf.

2.6. Dywedodd y Cadeirydd y cynhaliwyd dwy Sesiwn Friffio ar y Rhaglen Arolygon Etholiadol o fewn yr wythnos ddiwethaf. **Nodwyd** bod rhanddeiliaid wedi mynegi rhywfaint o bryder ynglŷn ag effaith etholiad y Senedd sydd i ddod a sut mae'n cynnwys yr un grŵp o bobl sydd â nifer gyfyngedig o adnoddau yn yr awdurdod lleol i gefnogi'r arolygon etholiadol. **Nodwyd** bod rhai pryderon ynglŷn ag amserlen gwneud Gorchmynion Llywodraeth Cymru ar gyfer arolygon cymunedol.

2.7. Dywedodd y Cadeirydd fod Jassa Scott wedi cael ei phenodi'n aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ar ôl i 6 ymgeisydd gael eu cyfweld.

2.8. Dywedodd y Cadeirydd y bydd y cynllun olyniaeth Comisiynwyr yn cael ei adolygu'n barhaus i sicrhau bod Comisiynwyr newydd yn cael eu recriwtio yn unol ag anghenion y Comisiwn. Ymgysylltwyd â'r Is-adran Noddi ynglŷn ag amserlenni recriwtio. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael yn ystod y misoedd i ddod.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 30 Ebrill 2025

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ebrill 2025 yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar fân newidiadau.

## 4. Materion sy'n Codi

4.1. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn ei gyfanrwydd gan nodi'r mater i'w drafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd cynnydd wedi'i ddiweddaru ar y materion canlynol hefyd:

4.2. **(Mater 1)** Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth – Cafodd y Comisiwn 2 gais Rhyddid Gwybodaeth rhwng 24 Ebrill 2025 a 22 Mai 2025.

4.3. **(Mater 2)** Aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio – Cynhaliwyd cyfweliadau ar gyfer yr aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 22 Mai 2025

4.4. **(Mater 3)** Llythyr Cylch Gwaith – Mae'r Comisiwn yn aros i'r Llythyr Cylch Gwaith gael ei gyhoeddi gan yr Is-adran Noddi

## 5. Y Bwrdd Rheoli Etholiadol (BRhE)

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig mis Mai 2025 gan Gadeirydd y BRhE ac fe'i **nodwyd**.

5.2. **Nodwyd** y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 6 Mehefin ac y bydd cyfarfodydd yn ddeufisol gyda chyfle i'w cynnal yn amlach wrth i'r etholiad nesáu.

5.3. **Nodwyd** y bydd y dogfennau llywodraethu terfynol yn cael eu cyflwyno i'r BRhE yng nghyfarfod mis Mehefin i'w cymeradwyo, ac yna fe'u dangosir i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC) yng nghyfarfod mis Gorffennaf.

5.4. **Nodwyd** bod cofrestr risgiau strategol wedi cael ei pharatoi ond y bydd yn cael ei chyflwyno yng nghyfarfod mis Awst.

5.5. **Nodwyd** bod grŵp llywio ar gyfer y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (WEIP) wedi cael ei sefydlu i gynorthwyo rheolwr y prosiect a thîm y prosiect, ond y BRhE ei hun sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau.

5.6. **Nodwyd** bod Prif Swyddog Digidol Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ddarparu aelod o'i dîm i roi cyngor a chymorth annibynnol i'r Grŵp.

5.7. **Nodwyd**, hyd nes y bydd y BRhE yn caffael darparwr ar gyfer y WEIP, y bydd y risg sy'n gysylltiedig â'r prosiect yn aros yn goch gan fod angen i'r Bwrdd weld ymateb gan y farchnad i'r ymarfer caffael.

5.8. **Nodwyd** bod y BRhE wedi gweithio gyda Chymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol a'r Comisiwn Etholiadol i amlygu'r risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â chyflwyno Etholiad y Senedd 2026 a sut i'w lliniaru, ac y bydd papur manwl yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ar 6 Mehefin.

5.9. **Nodwyd** bod gwaith ymgysylltu â'r farchnad wedi cael ei gynnal gyda'r cyflenwyr sydd ar y rhestr fer ar gyfer y WEIP, a bod y rhestr o gwmnïau wedi cael ei rhoi i gynigwyr eraill nad ydynt ar y rhestr fer fel y gallant gyflwyno cynigion ar y cyd.

5.10. **Nodwyd** bod gweithgarwch mapio wedi dechrau er mwyn sicrhau nad oes gorgyffyrddiad a dyblygu â'r Comisiwn Etholiadol. Mae sgyrsiau anffurfiol yn cael eu cynnal gyda'r Comisiwn Etholiadol i osgoi gorgyffyrddiad.

## 6. Cydnabyddiaeth Ariannol

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig mis Mai 2025 gan yr URPID.

6.2. Trafodwyd taliadau i arweinydd yr wrthblaid gan fod y rôl hon yn llai eglur ar y foment oherwydd bod system fwy aml-bleidiol yng Nghymru ar hyn o

bryd. **Nodwyd** y bydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn gadael y penderfyniad hwn i gynghorau.

6.3. **Nodwyd** y dylai'r holiadur ynglŷn ag adolygu cyflogau uwch gael ei anfon cyn hir. Bydd yn cael ei gyflwyno i'r comisiynwyr i'w weld. Trafodwyd y gellid ei hyrwyddo yng nghynhadledd CLILC i'w lenwi yno os bydd wedi'i gwblhau'n derfynol.

6.4. Trafodwyd ymgysylltu â Chynghorau Cymuned a Thref. **Nodwyd** y bydd y pwyllgor yn cyflwyno papur i'r Bwrdd ar arolygon pellach o Gynghorau Cymuned a Thref ym mis Mehefin neu fis Gorffennaf.

6.5. **Nodwyd** y bydd trafodaeth yn cael ei chynnal ym mis Mehefin ar y papur tystiolaeth ynglŷn â gosod y gyfradd cynnydd blynyddol, a gyflwynir i'r Comisiwn ar gyfer penderfyniad wedi hynny.

## 7. Adroddiad ar y Gyllideb 2025-2026

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 29 Mai 2025 gan y Rheolwr Cyllid.

7.2. **Nodwyd** y bydd rhan gyntaf y cyllid ar gyfer y platfform gwybodaeth yn cael ei derbyn ym mis Mehefin ac fe'i defnyddir i dalu am ymgynghorwyr.

7.3. **Nodwyd** bod diweddariad chwarterol ar y gyllideb yn cael ei argymell i ddefnyddio'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ar yr amod bod unrhyw beth anarferol yn y cyfamser yn cael ei uwchgyfeirio a'i ddwyn i sylw'r Comisiwn.

## 8. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risgiau

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 29 Mai 2025 gan y Rheolwr Cyllid.

8.2. **Nodwyd**, o ran CR3, bod y BRhE yn bwriadu cyflwyno blaenraglen waith wedi'i phrisio yn ei gyfarfod ym mis Awst 2026 a ddylai helpu i amlygu a yw'r adnoddau a ddarperir i'r Comisiwn yn ddigonol.

8.3. **Nodwyd** hefyd, o ran CR4, y gofynnir i'r BRhE roi cymeradwyaeth ffurfiol i fabwysiadu fframweithiau polisi CDFfC yn ei gyfarfod ym mis Awst er mwyn helpu i roi sicrwydd ychwanegol ynglŷn â threfniadau llywodraethu corfforaethol y Comisiwn, o ystyried bod y BRhE yn gallu penderfynu ar ei weithdrefnau ei hun.

8.4. **Nodwyd**, o ran CR6, y bydd fframwaith cyfathrebu ac ymgysylltu â

rhanddeiliaid i gefnogi gwaith y BRhE, ac y gellir ei ymgorffori wedi hynny yng ngwaith ehangach y Comisiwn. Trafodwyd bod angen strategaeth gyfathrebu drosfwaol ar gyfer y bwrdd sy'n hyrwyddo CDFfC a'i swyddogaethau yn eu cyfanrwydd ac y bydd yn cael ei chynnwys yn y flaenraglen.

8.5. **Nodwyd**, o ran CR8, bod risg na fydd y platfform WEIP yn barod mewn pryd ar gyfer etholiadau 2026 a bod angen i'r nod o'i dreialu ar gyfer etholiad lleol gael ei ddileu gan nad yw hynny'n bosibl.

8.6. **Nodwyd** bod cyngor cyfreithiol wedi egluro y gellir cyflwyno datganiadau ymgeiswyr yn eu dewis iaith, sy'n lliniaru'r risg ynglŷn â Safonau'r Gymraeg.

8.7. **Cytunwyd** i ddileu'r risg ynglŷn â throsglwyddo data gan ei bod wedi'i datrys bellach.

## 9. Adroddiad Cynnydd Arolygon

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 21 Mai gan y Pennaeth Arolygon.

9.2. **Nodwyd** bod y gorchymyn ar gyfer arolwg Sir Gaerfyrddin wedi cael ei gyhoeddi a'i anfon at yr Arolwg Ordnans, Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Caerfyrddin.

9.3. **Nodwyd** bod yr argymhellion ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr a Thorfaen yn aros am gael eu cyflwyno o hyd, ac yna bydd y Comisiwn yn trafod yr argymhellion.

9.4. **Nodwyd** bod y penderfyniad ar gyfer arolwg Bro Morgannwg wedi cael ei gyhoeddi ac nad oes unrhyw newidiadau. Bydd y cyfnod ymgynghori chwe wythnos yn dechrau ar 5 Mehefin.

9.5. **Nodwyd** bod y cyfnod ymgynghori chwe wythnos ar gyfer arolwg Sir Gaerfyrddin wedi dechrau.

9.6. **Nodwyd** nad yw arolwg cymunedol Caerffili wedi cael ei gymeradwyo eto gan Ysgrifennydd y Cabinet.

## 10. Adroddiad Gwersi a Ddysgwyd y Senedd

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 13 Mai 2025 gan y Pennaeth Arolygon ac fe'i **nodwyd**.

10.2. Trafodwyd y dylid osgoi ymgynghoriadau cyhoeddus ar adegau penodol o'r flwyddyn, fel y Nadolig a mis Awst.

10.3. Trafodwyd y dylid rhoi rhywfaint o ystyriaeth i newidiadau polisi yn y Senedd nesaf o ran y broses arolygu a sut mae arolygon yn cael eu cynnal, gan ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid allweddol yn gynnar.

10.4. Trafodwyd bod angen mwy o eglurder ynglŷn â beth sy'n cael ei newid ar gyfer yr etholiad nesaf, gan roi mwy o ystyriaeth i newidiadau yn y dyfodol yn hytrach na'r hyn sy'n cael ei gadw. Trafodwyd mai un o'r problemau allweddol oedd enwau lleoedd Cymraeg a'r angen i geisio cyngor cyfreithiol. Nodwyd mai'r wers a ddysgwyd oedd ceisio cyngor cyfreithiol o'r cychwyn cyntaf.

10.5. Trafodwyd bod y lefel isel o ymatebion ynglŷn â'r ail adroddiad yn awgrymu, er gwaethaf anawsterau ag enwau Cymraeg yn gyffredinol, bod yr argymhellion yn cael eu derbyn.

10.6. Trafodwyd y gellid rhoi ystyriaeth bellach i ddefnyddio offeryn mapio sy'n caniatáu i bobl wneud newidiadau awgrymedig yn y dyfodol, ond ar adeg yr arolwg cyntaf, roedd yn rhy ddrud i'w ymgorffori yn y porth, o ystyried cyfyngiad yr arolwg h.y. paru etholaethau Seneddol yn hytrach na chreu etholaethau yn ôl cymunedau.

10.7. Trafodwyd y dylid newid y derminoleg 'polisïau anffurfiol' yn yr adroddiad oherwydd trafodaethau oeddent.

10.8. Trafodwyd bod angen i ddarn am gyfathrebu ac ymgysylltu ddod yn ôl i'r Bwrdd cyn hir, gan gynnwys metrigau ar bwy a gyrhaeddwyd. Yna, bydd hyn yn llywio ymagwedd y Bwrdd at strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu yn y dyfodol.

## 11. Arolwg Cymunedol Rhondda Cynon Taf (RhCT)

11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 19 Mai 2025 gan y Swyddog Arolygon.

11.2. **Nodwyd** bod cyngor RhCT wedi cynnal yr arolwg hwn ei hun gyda chyfraniad gan dîm Arolygon CDFfC a heb lawer o argymhellion cyhoeddus.

11.3. **Nodwyd** bod y newidiadau yn unol â'r polisi maint y cyngor a bod pob cymuned yn cael ei chynrychioli gan 7 cynghorydd o leiaf, ardal gyngor â 700 o etholwyr o leiaf a dim wardiau â llai na 250 o etholwyr.

11.4. **Nodwyd** bod ffiniau hawdd eu hadnabod yn cael eu defnyddio fel y pennir gan ddeddfwriaeth i sicrhau bod ffiniau'n dilyn ffordd neu afon, sef rhywbeth na fydd yn newid dros amser.

11.5. Trafodwyd pam nad oes gan rai ardaloedd gyngor cymuned. **Nodwyd** mai mater i'r preswylwyr lleol yw penderfynu a hoffent gael un ac i'r cyngor gynnal refferendwm.

11.6. **Cytunwyd** ar yr argymhellion ynglŷn â ffiniau a niferoedd cynghorwyr.

11.7. **Nodwyd**, o ran newidiadau i enwau, bod y bwrdd yn aros am benderfyniad gan Lywodraeth Cymru o hyd, ac felly ni all y Comisiwn wneud penderfyniad eto.

11.8. Trafodwyd y gellid cynnal sesiwn wybodaeth am y broses arolygon ar gyfer y Comisiwn.

11.9. **Gweithredu:** Gofynnir i'r Pennaeth Polisi a Rhaglenni gynnal sesiwn i esbonio'r fframwaith Arolygon i'r Comisiynwyr.

## 12. Calendr Digwyddiadau

12.1. **Nododd** y Comisiwn y calendr.

## 13. Unrhyw Fater Arall

13.1. Nid oedd unrhyw fater arall i'w drafod.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 25 Mehefin 2025**